GWAEL

GARDOD YSPRYDOL

I'R

CYMRO.

NI BYDD DOETH NI DDARLLENNO.

Argraphwyd yn y Flwyddyn, 1752.

Hên Ddiharebion duwiol.

A *Gair* DUW yn *uchaf.*

Athro Pawb yn e'i *dŷ.*

Cyfaill Blaidd, Bugail diog.

Câs gan Ynfyd a'i cynghoro.

Deuparth Bonedd yw Dŷſg.

Dibech fywyd, gwyn e'i fyd.

Dyled ar bawb e'i Addaw.

Drych i Bawb e'i Gymmydog.

Gelyn i Ddyn yw e'i Dda.

Goreu Defawd *Daioni.*

Goreu Meddyg, Meddyg-Enaid.

Gwell Synwyr na chyfoeth.

Gwell DUW yn gâr, na llu y Ddaear.

Goreu cyfrwyſtra, Goneſtrwydd.

Ni fynno DUW, ni lwydd.

Ni ŵyr yn llwyr namyn Llyfr.

Nid adwyth rhêg ni haedder.

Nid gwradwydd gwellhâu.

Nid yſpys ond a ymoſynno.

Nid ffolineb ond *Meddwdod.*

Na werth y *Néf* er benthyg Bŷd.

Pob Dihareb, *gwir*; POB COEL CELWYDD.

Pob cadarn, gwan e'i ddiwedd.

Trymma' un Baich, baich PECHOD.

Ymhob Pechod y mae *Eſoledd.*

Ymhob rhîth y daw *Angeu.*

Y Llaw a rŷdd, a gynnull.

44. 4. 2. 165.

GWAEL GARDOD YSPRYDOL. 1752.

I.

HUNAN-YMHOLIAD.

Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y Ffydd: Holwch eich hunain, &c. 2 Cor. 13. 5.

YR ydym ni *oll*, yn y Bywyd *marwol* ymma, yn ſefyll ar ymmyl TRAGYWYDDOLDEB mawr ac ofnadwy.—Yr ŷm wedi ein goſod megis yn y *canol* rhwng Nêf ac Uffern, ſef rhwng anfeidrol *Ddedwyddwch* ac anrhaethol *Boenau* didrangc: —Yr ydym hefyd mewn *gobaith* o'r naill trwy GRIST ein Prynnwr, ac mewn *perigl* mawr o'r llall trwy ein hanffrwythlondeb a'n drygioni ein *Hunain*.—A chan mai'r Bywyd *ymma* yw ein dydd *Grâs*, a'r *unig* odfa i ymbarottoi erbyn awr Angeu a dydd y *Farn*, 2 Cor. 6. 2. Heb. 4. 7; y mae yn perthyn yn fawr i *bob* Perchen-enaid o honom edrych a chwilio yn ddyfal, a ydym *ni* mewn ſtat o *Râs* ac mewn cyflwr *cadwedig*, a'i nad ydym.—A rhag ini ein *twyllo* ein hunain yn erchyll (megis y gwneir yn gyffredinol gan wŷr y *Bŷd*) a gobaith di-ſylfaen o Drugaredd, a ſyrthio i Golledigaeth, ie yn ddiarwybod i ni ein hunain; *holwn* ein calonnau a'n bucheddau yn fanwl wrth reol *Gair* DUW, fel y gwelom a geir ynom *ni* yr ARWYDDION canlynol o *Jechydwriaeth*, a'i *na* cheir.

1. Gwir *Gariad* diffuant tuag at DDUW, a thuag at ei *Blant* a'i bobl Ef; a thaer ddymuniad o lwyddiant a dedwyddwch *Pawb* oll, hyd yn ved ein Gelynnion.—Matt. 5. 44. Matt. 22. 37—41.—1 Jo. 4. 20, 21.

2. Gwir *Edifeirwch* am ein holl bechodau a aeth heibio, (gyd-a bywiol Synnied o'n *Trueni* mawr wrth *Natur*; a llwyr

gaſineb i ddrygioni ynom ein *hunain*, ac ymhawb *arall*,) ynghyd a *Ffydd* ddiogel yn *Addewidion* DUW a wnaed i ni yng NGRHIST IESU.— Act. 20. 21. Luc. 13. 3. Hebr. 11. 6.

3. Ymhoffi yng *Ngair* DUW, ſef yn ei *glywed* a'i *ddarllen*, ac *ymddiddan* am dano, a *myfyrio* arno beunydd.— Ps. 1. 2. Joſh. 1. 8.—1 Tim. 4. 15, 16.

4. Aml a difrifol-*Weddio* o ddyfnder y *galon*, ſef ar gyhoedd gyd-a'r Gynnulleidfa yn yr Eglwys,—a chyd a'r *Teulu* gartre',—ac yn y *dirgel* hefyd.— Matt. 26. 41.— 1 Theſs. 5. 17. Joſh. 24. 15.

5. Awyddfryd a bwriad diffuant i oſod allan a derchafu *Gogoniant* DUW, a helaethu e'i wir Grefydd Ef, yn ein *holl* ymarweddiad yn waſtadol.— 1 Cor. 10. 31. Datc. 4. 11. Hebr. 3. 12, 13.

6. *Hunan ymwadiad*, ſef ymwrthod a'n hewyllys llygredig ein *hunain*, a marweiddio ein *natur* a'n Trachwantan drwg,— mewn llwyr ymffurfiad ac ufudd-dod i ſanctaidd Air ac Ewyllys DUW.—Luc. 9. 23.—27. Luc. 22. 42. Ephes. 4. 17—32.

7. Dwyn ein CROES yn ddiddig ac yn amyneddgar, neu ſod yn fodlon i *ddioddef* pob peth, er cariad ar GRIST ein Prynnwr a'i wir *Grefydd* Ef, a Chydwybod *dda*, a llawenydd Teyrnas *Nef*. Marc 8. 34, 35. Gal. 6. 14. Phil. 3. 8.

8. *Fyddlondeb* yn ein Galwedigaeth a'n gorchwylion, ac ymddygiad *goneſt*, cydwybodus a chymmwynaſgar, tuag at *Bawb*. Tit. 2. 12. Act. 24. 16. Gal. 6. 10.

9. Bod yn *Greadur newydd*, (Jo. 3. 3.— 2 Cor. 5. 17,) ac yn perchen Calon *hur* ac Yſpryd *graſol* goſtyngedig, yn dwyn *ffrwyth* buchedd dda. Matt. 5. 3—10. Tit. 3. 8. Gal. 5. 22, 23.

10. *Parhâu* hyd y Diwedd i *gynnyddu* mewn *Grâs* a Duwioldeb a *phob* Daioni. Marc 13. 13. 2 Petr. 1. 5—9.— 2 Petr. 3. 18.

OND ar y llaw arall, os *nad* wyt yn *caru* DUW a Dyn mewn Yſpryd a Gwirionedd, nag yn dewis CRIST a'i *Râs* uwchlaw pob dim;—*os* wyt yn dy gyfiawnhâu dy *hun*; ac yn hyderu a'r dy *wael* ddaioni amherffaith, neu ar dy wâg *ymddangoſiad* o Grefydd oddiallan;— *os* wyt yn ddifatter am wir Addyſg, ac yn diflaſu ar *Air* a Gwaſanaeth DUW; ac *heb* fod yn *gwilied* rhag temptaſiwnau a ſiamplau *drwg*; *os* wyt yn

Gweddio

Gweddio yn *ostraidd* ac yn *anaml*; ac yn myned at dy bryd-bwyd, fel Anifail, (*heb* na gweddio am *Fendith* arno, na *diolch* i'r Goruchaf am dano;)—*os* wyt yn anfodlonus i Ewyllys DUW, ac yn annioddefgar dan dy *Groes*,— ac *os* wyt yn dy gynwys dy hun (neu arall, yn ddigerydd) mewn *unrhyw* BECHOD gwirfodd, *dirgel* neu *gyhoeddus*, (megis Ariangarwch, Balchder, Anoneſtrwydd, Malais a chenfigen, Anlladrwydd, Cybydd-dod, Araith ddrwg, Celwydd, Meddwdod, Annuwioldeb, a'r *cyffelyb*,)—gwybŷdd wrth bob un o'r Arwyddion *drwg* ymma fod dy Enaid mewn *gelynniaeth* a CHRIST, ac yn glaf o echryſhaint *marwol*;— a rhaid iti fod yn fath *arall* o Griſtion, cyn y mae *môdd* iti fod yn gadwedig.— Matt. 5. 20. Hebr 12. 14. Matt. 18. 3. Rhuf. 8. 6, 7, 8, 13. Phil. 3. 18, 19. Gal. 5. 19— 22.— 1 Jo. 2. 15. Jago 2. 10.

FFORDD *fyrrach* i Ddyn gael gwybodaeth o Gyflwr ei *Enaid*, yw, trwy edrych a ydyw Ef mewn *gwirionedd* yn gynnyſgaeddol o FFYDD ac EDIFEIRWCH, (trwy weithrediad *Grâs* DUW,) y rhai ydynt y prif AMMODAU Jechydwriaeth a oſyn CRIST yn yr Efengyl, *Marc* 1. 15.— 16. 16. *Luc* 13. 3.—15. 7. Act. 20. 21. A rhag *twyllo* o Neb e'i Enaid drwy anwybodaeth o natur ac arwyddoccâad y *Rhadau* nefol hyn, dangoſaf ymma *beth* ydynt.

1. Gwir FFYDD Griſt'nogaidd yw *Grâs iachuſol* a weithir ynghalon Dyn gan *Air* a Glan *Yſpryd* DUW; drwy yr hwn y *derbyniwn* GRIST (megis y *cynhygir* Ef yn yr Efengyl,) yn wir ac unig *Jachawdwr* ini,— ſef yn *Brophwyd* neu Athro nefol,--yn Arch-*Offeiriad* holl-ddigonol,— ac yn *Frenin* tragywyddol ar ein Heneidiau;—ac yr hyderwn yn hollawl ar e'i *Air* a'i werthfawroccaf *Waed* a'i ryglyddus Gyſnawnder *Ef* (a gyfrifir i'r *Ffyddloniaid*, Rhuf. 3. 22—27,) am Gyſiawnhâad ac Jechydwriaeth;— yr hyn a ſy'n magu ynom wir *Gariad* i DDUW, ac *ufudd-dod* diragrith i'w *holl* Orchymmynion Ef.— Ephes. 2. 8. Gal. 5. 6. Rhuf. 10. 14, 17. Tit. 3. 3—9. Jo. 5. 24. Marc 9. 24.

2. Gwir EDIFEIRWCH yw *Grâs iachuſol* a weithir ynghalon Dyn gan Lân *Yſpryd* DUW a'i *Air*; 2 Tim. 2. 25, 26. Hebr. 4. 12, drwy yr hwn yr *argyoeddir* y Pechadur o'i gyflwr aflan a chollddig wrth *natur*,—Ephes. 2. 3, 5. Jo. 16. 8,-- y gwneir ef yn ddwys-deimladwy o ffieidd dra ac echryſlondeb e'i

Bechodau aneirif, Gal. 3. 10; Ezec. 36. 31,—y llenwir ef a'r fath *Driſtwch* duwiol o'r achos, 2 Cor. 7. 10, 11, ac a'r cyfryw *gaſineb* i'w Gamweddau, ac a wna iddo *droi* oddiwrthynt *oll* at DDUW; a llwyr-ymroi i ddilyn *buchedd newydd* byth rhagllaw,— mewn *Gobaith* cyſſurus o Nawdd a *llawn* faddeuant a Thrugaredd i'w *Enaid*, trwy ac er mwyn CRIST JESU.—Matt. 3. 2, 7, 8. Act. 2. 37, 38.—3. 19.— Jer. 2. 19. Rhuf. 6. 21, 23. Ezec. 36. 26, 27.

DELIWCH Sulw fod *pob* un o'r Amgylchiadau canlynol yn *trymhâu* euogrwydd Pechod yn erchyll, ac yn gofyn *dirfawr* Edifeirwch calon, cyn y bydd i Ddyn ddim *gwir* Obaith o Faddeuant *byth*; ſef

PECHU yn rhag-fyfyriol,— yn erbyn rheſwm a *Gwybodaeth*,—yn erbyn gwaſcſŷdd ein *Cydwybod*,— yn erbyn cyngor a *rhybuddion* ein Ceraint a'n Hathrawon,— yn erbyn Goleuni *Gair* DUW a'i *ſygythion* ofnadwy, — yn erbyn argyoeddion e'i *Râs* Ef,— yn erbyn e'i fwyneidd-dra a'i aml *Fendithion* Ef,— yn erbyn *Ceryddon* y Tâd Goruchaf; megis *cleſyd* neu ryw flinder arall,--yn erbyn Addewidion ac aml *Addunedau* duwiol: —Pechu o wir *Falais* a Gelyniaeth i ryw *Ddaioni*;— Hir *ymgynneſin o* a phechod,—a dadleu o'i du, a'i *amddiffyn*, —a chymmeryd *pleſer* Uffernol yn gweled neu glywed *eraill* yn ei wneud,—ie a'u hudo a'u *temptio* i *gyd*-bechu gyd-a ni.— *Dymma*'r môdd y dringir i'r Radd *uchaf* ac erchyllaf o *Ddrygioni*, ac y ſicrheir i Ddyn *ddwbl* ran o etifeddiaeth *Tân Uffern*.—Luc 12. 47. Rhuf. 1. 28— 32.— 7. 13. Pſ. 19. 13. Ephes. 4. 30.—1 Jo. 5. 16. Matt. 11. 24.—23. 15.

Deliwch ſulw ymhellach, fod *Pechodau* Dynion (mewn *meddwl*, Gair a Gweithred) yn *aneirif*, Pſ. 19. 12.—40, 12; y rhai a weithredir yn gyffredinol mewn un o'r *tair* ffordd ymma;— ſef 1, Drwy *wneuthur* yr hyn y mae *Gair* DUW yn ei *wabardd*;—2, drwy eſceuluſo neu adael *heb* wneuthur yr hyn y mae ei *Air* ef yn ei *Orchymmyn*;— 3, drwy gyflawni ein Dyledſwyddau mewn *môdd beehadurus*.—

Je y mae hyd yn ôd holl *Ufudd dod* a daioni y *goreu* o Ddynion yn *amberffaith* ac yn ddiffyg iol,

1. O ran y *Râdd* neu y *Meſur*;—canys nid yw neb o honom yn gwneud *cymmaint* o Ddaioni ac y mae Cyfraith DDUW yn

yn e'i *ufyn* gennym. Dan. 9. 10. Jago 3. 2. Datc. 3. 2. Rhuf. 3. 10.

2. O ran y *Modd*;— canys nid ydym bob amſer yn ufuddhâu i Air DUW ac yn e'i waſanaethu ef o ddyſnder y *Galon*, ac o ran *Cydwybod*. EZEC. 33 31.—Matt. 15. 8.—22, 37.

3. O ran y *Diben*;— canys yn lle *gweud* POB *peth er mawl i Gogoniant i DDUW*, 1 Cor. 10. 31, yr ydym (o leiaf ar ryw *brydiau*, fel y gwyddom trwy *brofiad*) yn chwannog i gyſeirio at amryw *gau* ddibennion, megis ein mawl ein *hunain*, &c. Matt. 6. 1—7. Jo. 5. 44.

Gan hynny, Oh pa mo'r *druan* a thoſturus yw Cyflwr DYN, yr hwn ſydd cyn *llawned* o Bechodau, ac etto heb allu wneud *iawn* i DDUW am gymmaint ag *un* o honynt, Rhuf. 7. 24. Job. 15. 16; ie yr hwn y mae ei weithredoedd *gorau* a'i Gyfiawnderau yn aflan ac fel *brattiau budron* yng ŵydd DDUW! Eſ. 64. 6. Job. 25. 4, 5, 6. Datc. 3. 17. Pſ. 143. 2.—Pa mo'r *ddedwydd* tros ben gan hynny yw i ni gael CHRIST IESU yn *Fachawdwr* holl-ddigonol i bob *Credadyn edifeiriol*! Phil. 3. 7, 8.— 1 Petr 1. 3, 4, 5.

II.

MYFYRDODAU DUWIOL,

ER dangos ym mha ſôdd *yſtyriol* y rhaid i Bawb ddarllen *Gair* DUW, a ſy'n diſgwyl *ffrwyth* ac *adeiladaeth* ac *iechyd* yſprydol a *diddanwch* oddiwrtho.— 1 Tim. 4. 15, 16. Col. 3. 16. Pſ. 1. 2. Hebr. 2. 1. Joſh. 1. 8.— 2 Petr. 3. 2.

1.— Joſhua 24. 15. *Ond* MYFI, *mi a'm* TYLWYTH *a waſanaethwn yr* ARGLWYDD.

Hyn yn ddiammeu a *ddylai* fod yn hollawl Ymroad ac yn *Ymarfer* beunyddiol gan *bob Pen teulu* Criſt'nogol: *Heb* yr hyn ni wiw i ddyn ddiſgwyl na Phlant *graſol*, na Gweiſion *oneſt* a chydwybodus: A gwaith *ofer* a rhyfygus iddo obeithio

am râd a *bendith* DDUW nag yn y bywyd *ymma* nag yn y Byd a *ddaw*, heb wneud cydwybod o gynnal DUWIOLDEB TEULUAIDD, Jer. 10, 25; — yr hyn (er *maint* o FIBLAU a ſydd yn ein plith yr awr'on, ac er *maint* a ſydd o DDARLLENWYR drwy waith yr *Yſcolion Cymraeg*,) a eſceuluſir fyth yn gyffredinol yn yr oes annuwiol ymma!

Ond, beth bynnag a wnelo eraill; dyro i *mi*, o Arglwydd, *râs* i wneuthur iawn ddeunydd o'r *Awdurdod* a drefnaiſt imi ar ſy Nheulu; gan gyſſegru fy Mhant a'm Gweinidogion i'th Anrhydedd a'th Ogoniant *Di*, trwy gynnal gwir Grefydd a duwioldeb yn eu plith, yn ol eſampl *Joſhua* a'r Tad *Abraham* (Gen. 18. 19) a'r holl Seinctiau gynt. — 1 Tim. 5. 8. Pſ. 101. 6, 7. Act. 10. 2.

2. — 1 Cor. 15. 33. *Y mae Ymddiddanion drwg yn llygru Moeſau da.*

Nid oes *môdd* i'r hwn a ſydd yn ymhoffi mewn Cwmniaeth ofer ac *annuwiol*, fod yn caru DUW, nag yn gofalu am ei *Enaid* ei hun. Neſa' peth at *fod* yn Ddyn *drwg*, a'r hyn a *wnâ* ddyn felly mewn ychydig amſer, ydyw cadw *cwmni* drwg: Canys naturiol effaith pob ymddiddanon *diras* yw halogi'r Enaid, a llygru'r Gydwybod, a dwyn ofn DUW a phob cynneddfau da oddiarnom, trwy agor drws y Galon i bob meddyliau *drwg*. — Gan hynny cadw *ſi*, o Arglwydd, trwy Yſpryd dy *râs* (*bob* amſer, ac yn enwedig ar y Dydd *Sabbath*) er mwyn fy *Mrhynnwr* bendigaid, rhag pob *ofer* Ymddiddanion halogedig, y ſydd mo'r ffiaidd gennyt *ti*, ac mo'r ddiniſtriol i Eneidiau Dynion; — a phâr imi hoffi cymdeithas Pobl *grefyddol*; y rhai *ni* ddaw *un Ymadrodd llygredig allan o'n genau, ond y cyfrryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, fel y paro râs i'r Gwrandawyr*, Ephes. 4. 29.

3. — Pſ. 127. 1. *Oni yr Arglwydd nid adeilada y Tŷ, ofer y llafuria yr Adeiladwyr wrtho*, &c.

Annedwydd a *deillion* yw'r ſawl a ſydd yn diſgwyl *llwyddo* heb dy râd a'th fendith *di*, O Arglwydd hollalluog: Gan hynny,

hynny yr wyf *fi* yn taererfyn y *fendith* honno arnaf fy *hun* a'm teulu a'm llafur a'm perthynaſau. Cadw Fi rhag Cybydd-dod, ac Ariangarwch, *yr hwn yw gwreiddyn* pob drwg, 1 *Tim.* 6. 10,— a rhag bod mo'r *ynfyd* a rhoi fy ſerch a'm hyder ar *ddim* mewn nef na Daear ond *Tydi* yn unig.— Ac na bydded imi *attal* dy fendith Di, trwy gymmeryd dim gwaith mewn llaw a fyddo yngwrthwyneb i'th *Ewyllys* di a'm *Proffes* Criſt'nogol. —O Arglwydd trugarog, gwna ni oll yn gymmwys i'r *Tŷ nid o waith Llaw, tragywyddol yn y Nefoedd*, 2 Cor. 5. 1.

4.— Col. 4. 1. *Y Meiſtred, gwnewch i'ch Gweiſion yr hyn ſydd gyfiawn ac uniawn, gan wybod ſod i* chwithau *Feiſtr yn y Nefoedd.*

O Feiſtr Goruchaf, trefna i mi weinidogion *cywir* a ffyddlonaidd, yn dy ofni *Di* yn waſtadol,— a bydded i minneu wneuthur a hwynt *Ran* Meiſtr *Criſt'nogol*,— a gofalu yn ddirfawr dros lwyddiant e'u Heneidiau a'u cyrph,— a bod yn *Eſampl* iddynt o Sobrwydd, Goneſtrwydd, Cymmwynaſgarwch a Duwioldeb. Planna dy ofn a'th Gariad ym *mhob* Aelod o'm Teulu, a thywallt nefol wlith dy *Fendith* arnynt, ac ar fy *eiddo* a'm *llafur* a ymddiriedir dan eu dwylaw hwynt,—er mwyn dy anwyl *Fab* bendigedig.

5.— Ephes. 6. 5, 6. *Y Gweiſion, ufuddhewch i'r rhai ſydd Arglwyddi* (neu Feiſtred) *i chwi yn ol y Cnawd,—nid a* GOLWG-WASANAETH, *fel bodlonwyr Dynion, ond fel Gweiſion* CRIST, *yn gwneuthur Ewyllys* DUW *o'r* GALON.

Tydi, Arglwydd, er doeth Ddibennion daionus, a ordeiniaiſt *amryw* Raddau a chyflyrau i Ddynion yn y Byd *ymma*; ac yr wyt yn derbyn pa *ddaioni* bynnag a wnelom i *arall*, yn waſanaeth cymmeradwy i Ti dy *Hûn*;— pâr i *mi* lwyr-ymfodloni i'r Alwedigaeth i'm gelwaiſt iddi, a gwneud *Cydwybod* o waſanaethu fy Meiſtr *daearol* yn gywir ac yn oſtyngedig, er dyfwyn *di*, ac er mwyn CRIST fy Mrhynnwr, *yr hwn a gymmerodd arno agwedd* GWAS, Phil. 2. 7, er Jechydwriaeth Dyn. Tydi yr hwn wyt *Dyſt* o'm Gweithredoedd *dirgelaf*, caniadhâ i mi fod yn *wâs ffyddlon* yn y bywyd hwn, fel i'm derbynier yn wâs, ie yn *blentyn* etholedig i *Ti* dros byth bythoedd.

6.—Luc.

6.—Luc. 13. 24. YMDRECHWCH *am fyned i mewn trwy'r Porth cyfyng*; *canys* Llawer, *meddaf i chwi, a* GELSIANT *fyned i mewn, ac* ni's *gallant.*

O Arglwydd, *na* bydded ini byth mwyach ein gwenieithio a'n twyllo ein hunain trwy ſeddwl fod y ffordd i'r NEF yn hawdd ac yn *eſmwyth*, a bod y rhan *fwyaf* o Bobl fedyddiol yn tramwy ar hyd lwybr y *Byrwyd*,— gan dy ſod Ti dy *hun* wedi ein ſiccrhâu o'r gwrthwyneb, *Matt.* 7. 13, 14.—20. 16. Pâr ini wybod a chredu nad oes dim *môdd* ini weithio allan ein hiechydwriaeth byth heb *ddirfawr* ofal a gwiliadwri a llafur a hunan-ymwadiad difrifol,—a than yr *Ammodau* hyn, y bydd i'th Râd-*râs* di a'th Ddaioni ein nerthu i *drechu* pob gelyn-enaid a phob anhawſdra a rhwyſtr a darawom wrthynt ar y ffordd i'r *Nef.*

7.—Luc 9. 23. *Ac Eſe a ddywedodd wrth* BAWB, *os ewyllyſia neb ddyfod ar fy ôl I, ymwaded ay Ef e'i* HUN, *a choded e'i* GROES *beunydd, a dilyned* FI.

O Arglwydd IESU, yr hwn a ordeiniaiſt hyn yn un o foddion Grâs ac yn *rheol* iechydwriaeth ini; nertha ni a'th *Yſpryd*,—a'th *Athrawiaeth*,—a'th *Eſampl*, i'w dilyn beunydd,—i ddiddyfnu ein calonnau oddiwrth rodres a gorwagedd y BYD,—oddiwrth e'i bleſerau a'i ſanteiſion hudol a'i eulynod,—i farweiddio ein natur a'n *chwantau* llygredig, ac i ddiwygio'r hyn oll a ſydd ar *fai* ynom,—i fod yn addfwyn, yn oſtyngedig ac yn gymhedrol; gan lwyr ddaroſtwng ein Ewyllys *ni* i Gyfraith a Rhagluniaeth DDUW. A chaniattâ *na* byddo i *ni*, y rhai a'n *galwn* ein hunain yn GRIST'NOGION, roi achos tramgwydd a rhwyſtr i *neb*; chwaethach peri i eraill *ddirmygu* dy ſanctaidd *Air* a'th *Sacramentau*, drwy ein bucheddau angrhiſtnogol.

8.—Matt. 16. 26. *Pa leſhâad i Ddyn os ynnill yr holl* FYD, *a cholli e'i* ENAID *e'i hun? neu pa* beth *a rydd Dyn yn* gyfnewid *am e'i Enaid?*

Och,

Och, pa nifer erchyll o *enw*-Criſt'nogion a ſy'n byw dros ſynyddoedd heb *feddwl* am hyn o ddifrif! Ac Oh mo'r chwannog ydym *oll* i lygad-rythu ar Fawredd *bydol*, ie ac i *genfigennu* wrth y ſawl a ſy'n medru caſglu golud a meddiannau helaeth iddynt e'u hunain a'u Heppil;— *unig* ofal ac ymgais a *gwynfyd* pa rai yw *ymgyfoethogi* ymma fwyfwy.

Eithr *cadw* dy wâs, O Arglwydd, rhag y fath chwant diffaeth a DALLINEB, y ſy'n *yſcar* rhyngom a CHRIST, ac yn arwain o wir angenrhaid i *Ddiſtryw* Enaid a chorph;— am yr hyn ni's dichon caffaeliad y BYD i gyd wneud dim *iawn* byth.

9.—Jago. 5. 20,—*Bydd i'r hwn a* drôdd *Bechadur oddiwrth gyfeiliorni e'i Ffordd, gadw* Enaid *rhag Angeu, a chuddio* lliaws *o Bechodau.*

O Argwydd trugarog, *amlhâ* nifer a rhinweddau y ſawl a ſy'n duwiol-eiddigeddu dros dy Anrhydedd *Di*, ac yn dwyn ZEL ac awydd-fryd calon tuag at *helaethu* dy wir Grefydd Di, a throedigaeth Pechaduriaid. Pâr i *bawb* o honom, ac yn enwedig i'r *Eglwyſwyr* (i'r rhai yr ymddiriedaiſt Weinidogaeth y *Cymmod*, 2 Cor. 5. 18, 19, 20.) wybod a deall fwyfwy, mai'r gwaith goreu a *dedwyddaf* yw attal Pechod, a gwanhâu teyrnas *Satan*, trwy achub *Eneidiau* anfarwol, Dan. 12. 3; tros ba rai y bu wiw gan yr IESU golli e'i werthfawrroccaf *waed*. Dangos iddynt y *wir* ffordd i addyſgu eraill, ac i droi calonnau Pechaduriaid; a bydded i'th Râd a'th Fendith *Di* gyd-ganlyn e'u hymgais a'u llafur *duwiol*.— A chaniadhâ i *minneu*, dy wâs, feddylfryd calon i wneuthur *daioni* yn fy nghenedl,-- i gyngori pawb at y *goreu*,-- i roi *ſiampl* dda i bob Dyn,-- i weddio dros *bawb* oll (1 Tim. 2. 1. 1 Sam. 12. 23,) hyd yn ôd fy *Ngelynion*, Matt. 5. 44,— ac i geryddu *Pechod* yn hyderus, yn ol dy *Air* a'th Orchymmyn *Di*, Lev. 19. 17,— *Gan geryddu* cerydda *dy Gymmydog, ac na ddioddef* bechod *ynddo*.—Caniattâ hyn oll, O Arglwydd, allan o anfeidrol Dryſſor dy Drugaredd, er mwyn CRIST IESU. *Amen*

III. NA

III.

NA THWNG DDIM.

Mat. 5. 34.

O'R DRWG, ſef oddiwrth *Satan*, y mae pob mâth grâdd o ofer *dyngu* yn deilliaw, (fel i'n dyſcir yn *Mat.* 5. 37.) ac atto *ef* y mae yn arwain,—Gan hynny, na Thwng *ddim*,—na MYN dim, nag AR ddim,—ar unrhyw *achos*, na than unrhyw *eſcus* yn y byd,—oddigerth dy fod yn *hoffi* melldith a damnedigaeth, ac ar frys am gael myned i'r lloſcfeydd tragywyddol *a barottowyd i Ddiafol a'i Angylion*.— Dengys y *Rheſymmau* canlynol i ti fod amryw bethau yn dirfawr-*drymhâu* euogrwydd y pechod *ymma* o gymmeryd Enw DUW yn *ofer*, neu DYNGU yn fyrbwyll ac yn *ofer*, rhagor odid un Pechod trwy'r *Byd*; ſef,

1. Pechod diles yw *hwn*,—heb fod dim i'n *denu* iddo, na dim i'w *gael* oddiwrtho,—na phleſer i'r Genau, (nag i'r *un* o'r Synhwyrau) nag ennill i'r Pwrs, fel y mae oddiwrth ormod o bechodau *eraill*: Ag nid yw yn ennill i ddyn na choel na chrêd, eithr yn hyttach y gwrthwyneb: Canys yr hwn *na* wna gydwybod o dyngu a rhegu ag amharchu DUW ei hun,—nid oes modd i ddiſgwyl y *rhiſia* ef dd'weud *celwydd* bob yn awr, ie a thynguy anudon, er twyllo *Dyn*. Ceiff y Criſtion goneſt ei goelio ar ei *air* gwir; ond *y neb a dwng, a dd'wed gelwydd* yn ddiammau.—Pechu er *mwyn* Pechu, y mae'r ofer-Dyngwr,—ag nid *Gwerthu* ei Enaid y mae, ond ei râd-*roi* yn Yſclyſaeth i Ddiafol.

2. Y mae dyn trwy'r pechod *ymma*, *nid* yn amharchu DUW yn ei *air* ai *ordinhadau*, a megis o hirbell,— ond yn union i'w WYNEB,—ag wrth hynny yn cyffroi ag yn gofyn gwaethaf y *Barnwr* cyfiawn eiddigus HOLLALLUOG, yr hwn a ddichon ei fwrw ef i eigion *Uffern* y munud ymma,—ag *oni* bai ei anfeidrol *Drugaredd* hir-ymarhôus a'i *ddi* gyffelyb Ammynedd, a *wnai* hynny 'n *ebrwydd* ar d'rawiad llygad.

3. Y

3. Y mae *dibirwch* yr ofer-Dyngwr cymmaint a'i *Berigl.* Ai nid Ynfydrwydd gwatworus yw i ddyn *ddi*-anrydeddu y Tragwyddol Hanfod *hwnnw*, yr hwn y mae ef ar amferoedd *eraill* yn ei *addoli*,—gan fyrthio ar ei *Liniau* ger bron DUW y *naill* awr, a'i gablu neu amharchu ei *Enw ef* yr awr *nefaf*,—Bi Enw EF, meddaf, yr hwn a'i *creodd* ef, ag yn nwylaw yr hwn y mae ei *Anadl*,—yr hwn a ofyn gyfri' manwl ie am bob Gair SEGUR o'r eiddo,—ag ar *law* yr hwn y mae ei wneud ef yn ddedwydd *neu*'n druenus, *ymma* a thros BYTH.

4. Y mae *hwn* yn bechod o'r cyfryw wrthuni a *Maintioli*, *nad* oes mo'i *gymmar* i'w gael yn *Uffern* ei hun: Canys *er* bod yr Yfprydion colledig fy' *yno*, yn cablu'r Goruchaf o achos echryflondeb e'u Poenau a'u cyflwr *di*-rwymedi, anobeithiol,—etto nid yw hynny *debyg* i bechod y *Dyn* byw, fy'n *di*-anrhydeddu Enw'r Arglwydd,—DYN, yr hwn fy' megis yn nofio mewn Afonydd o haelioni a thrugaredd a daioni DUW, yr hwn fy'n ei ymweled ag anrhegion *newydd* o'i Gariad bob dydd, bob awr, bob munud; ac yn *cynnyg* iddo gyfran helaeth o'i *dragywyddol* Ddedwyddwch ei *Hun*, dan ammodau'r *Efengyl*, trwy ac er mwyn gwerthfawrroccaf *waed* CRIST.

5. *Tafod* neu barabl Dyn yw ei *Urddiant*, a math ar *ryfeddol* waith yw ei *Ymadrodd* ef,—yr hwn a drefnwyd iddo *ef* rhagor yr *holl* Greaduriaid gweledig, i fod yn offeryn o *Ogoniant* DUW. Gan hynny mae'r neb fy'n meiddio *cam*-arferu Rhôdd mo'r *werthfawr* ragorol, yn llawer bryntach na'r *Anifeiliaid* eu hunain;—a daw'r dydd pan ofer-ddymuna ef fil-canwaith y ganefid ef mo'r FUD a *nhwythau*.

6. Pechod annedwydd iawn yw *hwn*, o herwydd bod e'i *ddychweliadau* cyn *amled*;—canys *er* ei fod o natur echryflon arfwydus, etto gellir bod yn euog o hono *lawer* o weithiau mewn *un* munudun. Mewn llawer o bechodau mawrion eraill *nis* geill hynny mo'r bod;—Nis dichon dyn *feddwi* o newydd *bob* awr, ag nid oes modd i neb halogi'r *Sabboth* ond ar *un* dydd o *Saith*: Eithr dichon y *Tyngwr* halogedig ddyblu a threblu ei Bechod yn yr *un* anadl, a thywallt y fath *ffrwd* Uffernol o Lwon a rhegfeudd ar *unwaith*, ag a'i hamdwya ef dros *byth bythoedd*.

7. Amharchu *Enw* DUW yw'r hyn *eitha*' a ddichon Malais *Dynion* i'w erbyn ef:—Y mae ei *Hanfod* ef uwchben e'u cyrhaedd, a'i *Ddedwyddwch* ef yn *ang*hyfnewidiol; Ond ei *Enw* a eill gael ei halogi *neu* ei ogoneddu gan *Ddynion*;—Ag och! a pha

ddirmyg

ddirmyg a *difrâwch* y mae cantoedd (ie o *Ferched*, cyſtal a Meibion !) yn ei drin ef.—Yſtyrier fod DUW yn cael ei ddibaid-foliannu, a'i wir-addoli gan e'i aneirif Angylion a'i Seinctiau yn y *Nefoedd*,—fod yr *Elfenau* i gyd yn cyflawni ei *Ewyllys* ef,—fod yr *Adar* yn eu ffordd hwynt yn canu *Mawl* i'w *Creawdwr*,— a'r *holl* Greaduriaid *mudion* yn ufuddhâu i reolau a dibennion e'u *Creadigaeth*,—ag nad oes *neb* na *dim* yn offio tynnu'n *groes* i'w Ewyllys bendigedig, nag *am*harchu e'i *Enw* ſanctaidd *ef* yn yr hyn *lleiaf*, OND *Dynion* diras a *Chythreuliaid* damnedig.

Dichon yr Yſtyriaethau *dwyſion* ymma (trwy y *nefol râd*) brifio'n *Fendith* i'ch Eneidiau ; a'ch gwneuthur chwi, ac eraill a'u darllenno, yn ddwys-ſynniol o *dramawr* Euogrwydd pob *Araith-ddrwg* a phob mâth a grâdd o *dyngu* a *rhegu* ;— a'ch dwyn i ddibaid-ddyledus *Ofni'r Enw gogoneddus ac ofnadwy* hwn, yr ARGLWYDD dy DDUW, (Deut. 28. 58—61;)--fel, trwy gyſſegru eich Tafodau o hyn allan i'w *Fawl* a'i Ogoniant Ef, y caffoch ganu *Halelujah* Iddo yn dragywydd yn Nheyrnas Nêf, drwy anrhaethol Gariad a theilyngdod Iesu Grist ein Jachawdwr. *Amen.*

IV.

Rhybudd yn erbyn MEDDWDOD.

Na Feddwer Chwi—.Ephes. 5. 18.

YStyriwch fod y Pechod *brwnt* ymma yn difrodi eich *Amſer* gwerthfawr, a'ch *da byd*,— yn niweidio eich *iechyd*,—yn eich difuddio o'ch Geirda,---yn gwanhâu eich Pwyll a'ch *Rheſwm*,—yn difwyno eich *Rhinweddau* da i gyd,—yn ennyn Trachwantau a Gwyniau *drwg* ynoch, (ag wrth hynny yn magu aflendid, ymryfaelion, celwydd, araith ddrwg, enllib, ag agos *bob* Pechod arall)—yn *gam* arferiad hyll anniolchgar o ddaionus *Haelioni* DUW,—yn peri tramgwydd erchyll a *ſiampddrwg* i'ch cyd-Griſtianogion,--yn ſynnu a thrymhâu eich Calon,

--yn

--yn llygru a chaledu eich *Cydwybod*,--yn caethiwo a dallu eich *Enaid*,—yn gwradwyddo 'r *Grefydd* Sanctaiddlan a broffessir gennych,--yn gyrru 'r Yspryd Glân *oddiwrthych*,---yn eich troi yn *Fochyn* ffiaidd,—yn elyn i DDUW, ac yn blentyn i Ddiawl; ---ac, ar air, y bydd yn *ſiwr* o'ch cau *allan* o Deyrnas *Nefoedd*.

Gwirionedd eglur *di* ddadl yw *hyn*,—fel y gwelwch yngair DUW; 1 Cor. 6. 9, 10, *Na thwyller chwi; ni chaiff na Godineb-wyr, nac eulun-addol-wyr, na thorrwyr priodas, na Maſwedd-wyr, na gwrryw-gyd-wyr, na lladron, na chybyddion, na* MEDDWON, *na diſenwyr, na chribddeil-wyr, etifeddu Teyrnas* DDUW.—Epheſ. 5. 18, *Ac na* FEDDWER *chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd; eithr llanwer chwi a'r Yſpryd.*—Rhuf. 13. 13, 14, *Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd,—nid mewn cyfeddach a* MEDDWDOD; *nid-mewn cyd-orwedd ag anlladrwydd; nid mewn cynnen a chenfigen: Eithr gwiſcwch am danoch yr Arglwydd* JESU GRIST; *ac na wnewch rag-ddarbod tros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.*—Gal. 5. 21,—*Cenfigennau, llofruddiaeth,* MEDDWDOD; *a chyffelyb i'r rhai hyn,*—ni *cheiff y rhai ſy' yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas* DDUW.—Luc. 21. 34, *Edrychwch arnoch eich hunain rhag i'ch calonnau un amſer drymhâu drwy lotbineb a* MEDDWDOD, *a gofalon y bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnnw arnoch yn diſymmwth.*— Eſay 5. 11, 12, GWAE *y rhai a gyfodant yn foreu i ddilyn diod gadarn; a arboſant hyd yr hwyr, hyd oni enynno y gwin hwynt: Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y Delyn a'r nabl, y tympan, a'r bibell a'r gwîn: Ond am waith yr* ARGLWYDD *nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid yſtyriant.* Ac Amos 22, GWAE *y rhai cryfion i yfed gwin, a'r Dynion nerthol i gymmyſcu diod gadarn.*—Habac 2. 15, GWAE *yr hwn a roddo ddiod iw Gymmydog; yr hwn ydwyt yn rhoddi iddo dy Goſtrel, ag yn ei* FEDDWI *hefyd*, &c.

Am hynny, er cariad ar eich *Enaid* gwerthfawr, anfarwol, ac o ran ufudd-dod i *Orchymmyn* pendant, (ſef Lef. 19. 17,—*Gan geryddu cerydda dy Gymmydog, ac na ddioddef bechod ynddo*; —a St. Jaco 5. 19, 20, *Fy mrodyr, os aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddiwrth y Gwirionedd, a throi o un ef; Gwybydded y bydd i'r hwn a drôdd bechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, gadw Enaid rhag Angeu, a chuddio lliaws o bechodau,*) am hynny, meddaf, er cariad ar ar eich *Enaid*, yr wyf yn dwyn tramawr

Euogrwydd y Pechod *brwnt* ymma ar *Gôf* i chwi, yr hwn ſy'n eich bygwth a *ſyched didorr* mewn *Tân* anniffoddadwy.

O bydded *gwiw* gennych (attolygaf i chwi) ddwys-*yſtyried* hyn yn ebrwydd, a'i roi'n *fyfyriol* at eich *calon*, a llwyr ymroi gwneud *cydwybod* o ymgoſpi rhagllaw,— ſef o *ochel* a gwilied byth o hyn *allan* rhag y *Ddiod* a'r *Gwmniaeth*, a rhag *pob* Gwall a Hudoliaeth ddrwg a fyddai arferol o'ch llithio i'r Pechod atcas mochynaidd diniſtriol ymma; canys ſiccr yw y rhaid i *bob* Pechadur *ddioddef*, naill a'i loeſau gwir *Edifeirwch* yn y Byd *ymma*, neu loeſau *Uffern* dros *byth* rhagllaw.—Ac er maint eich gwendid a'ch anallu i orchfygu'r pechod yma, cofiwch mai mawr a *rhyfeddol* yw gweithrediad *Grâs* DUW tuag at Bechaduriaid *edifeiriol*,—yn adnewyddu eu calonnau, ac yn eu troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant *Satan* at DDUW. Act. 26. 18.

Nid yw'r *Eſcuſion* goreu a chyfrwyſaf o du *unrhyw Bechod* gwirfodd o'r fath *ymma*, ddim amgen na dyfais a dichell *Satan*,— ag ni's gwnant ond *dyblu* eich baich a'ch poenau dros byth;—fel yr eglur welwch wrth DEUT. 29. 19, 20,— *A bod, pan glywo efe eiriau y felldith hon, ymfendithio o honaw yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i Mi*, ER *im rodio ynghyndynrwydd fy nghalon fy* hun, *i chwanegu* MEDDWDOD *at ſyched*: Ni *fyn yr Arglwydd faddeu iddo*; *canys yna y myga* Digllonedd *yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gwr* hwnnw; *a'r holl* Felldithion *ſydd 'ſcrifennedig yn y Llyfr hwn a orwedd arno* EF, &c.

Wrth hynny ni *wiw* ymeſcuſodi,—ie peth tra *enbyd* yw i chwi eich *gwenh'eithio* eich hun mwyach yn eich drwg? canys y mae melldith a *dial* DUW ynglyn wrth *Bechod* drwy ddeddf dragwyddol, Gal. 3. 10. Rhuf. 1. 18. Deut. 27. 15—26.—Felly bydded *yſpys* gennych, os *dibriſiwch* hyn o *Gyngor* caredig, ag y *gwrthodwch* wneuthur iawn *Ddeunydd* prydlon o'r Dyſtiolaeth *hon* yn erbyn y Pechod ffieidd-ddrwg ymma,—y bydd i'r RHYBUDD *hwn* a ddarllennwch yr awr'on, eich cyhuddo a'ch *euog*-farnu ger bron Gorſeddfaingc CRIST: Am hynny dyfal-*gofiwch* ef ymlaenllaw, a goddefwch iddo (er mwyn DUW a'ch Enaid) gael ei lawn *grâſſ* a'i ddyledus *Effaith* ar eich *Calon* a'ch *Buchedd* a'ch *Ymarweddiad* o hyn *allan*, tra bo anadl *Einioes* ynoch'.—*Yr neb a barhâo hyd y Diwedd, hwnnw a fydd cadwedig*, Marc. 13. 13, ac yn gyfrannog o *Drugaredd* DDUW yng NGHRIST IESU. *Amen.*

V. COFIA

V.

COFIA y Dydd SABBATH i'w SANCTEIDDIO Ef.

Exod. 20. 8.

COfiwch PWY a *lefarodd* y Geiriau hyn, ac a'u gwnaeth yn *Gyfraith* ſefydlog i holl Bobloedd y Ddaear, (h. y. yn Rheol *buchedd* yn y Byd ymma, ac yn Rheol *Barn* yn y Byd a ddaw,)—ſef yr Arglwydd DDUW Goruchaf, *Brenin* Nef a daear, a *Barnwr* pawb oll.—Yſtyriwch fod ei *holl* Orchymmynion EF yn bwyſsawr ac yn *ofnadwy*: Eithr y mae Hwn yn *rhagori* ar y cwbl o herwydd y Rhybudd enwedigol a roddir i ni oll GOFIO y Dydd SABBATH i'w SANCTEIDDIO Ef:—Mae *hyn* yn arwyddoccâu ac yn egluro ddangos fod HON yn Ddyledſwydd *bwyſsawr* dros ben; a bod Parhâad a llwyddiant y *wir Grefydd* ar y ddaear, yn ſefyll gan mwyaf ar iawn-gadwraeth a Sanctеiddiad o *Ddydd yr* ARGLWYDD;—ac yn *niffyg* hynny, na wiw diſgwyl i Ddyn briſio yn *wir Griſtion* defoſionol *byth*.—A chan yr eſceuluſir ac y dibriſir ac y *cam*-dreulir y *Sabbath* (neu y rhan *fwyaf* o'r dydd Sanctaidd ymma) mo'r erchyll gan *Fonheddig* a *Gwreng* yn ein Gwlâd ac yn ein plith ein *Hunain*, Yſywaeth,—nid rhyfedd fod cyn *lleied* o FFRWYTH a GRYM Duwioldeb ac o Ofn DUW ac o *ſylwedd* e'i wir Grefydd Ef i'w canfod mewn *cynnifer* o'n hamgylch,—na braidd ddim ond yr ENW o Griſtnogion, a'r wâg *Broffeſs* ddiffrywth, *oddiallan*; ie fod rhai yn pechu yn *erchyll*, ac yn byw megis *heb* DDUW yn y byd.

Eiddo DUW yn ddiammau yw *pob* Diwrnod o'n Bywyd, (ie pob awr, pob *munud* o'n Hamſer gwerthfawr, a phob peth *arall* a feddwn; ac iddo EF y gerſydd i *Bawb* o honom roddi

cyfrif manwl o'r cwbl oll,) ac yn enwedig ei *Eiddo* EF ydyw y Dydd SABBATH, yr hwn a *gyſſegrodd* Ef er *Crendigaeth y* Byd i'w Fawl a'i Ogoniant ei *hun.*—Gan hynny, rhag dy gael *di* yn Gyſſegr-yſpeiliwr, *tâl* di yr *eiddo* DUW *i* DDUW, *Matt.* 22. 21 ;—*beth bynnag a wnelo eraill.*

I'r diben ymma bydded iti lwyr-ymroi (trwy gymmorth y nefol *Râd)* i gadw'r *Sabbath* yn well *rhagllaw*, nag y cedwaiſt ef erioed etto ; gan ei gyſſegru Ef yn *gyfa* o ben bwygilydd i'r ARGLWYDD ac i'w dduwiol waſanaeth EF ; a chymmell dy DEULU i wneuthur felly hefyd (yn ôl Siampl *Joſhua*, 24. 15,)—a hynny nid o ran *Defod ac arfer*, nag er dim *gau* ddibennion daearol,—ond o'ran *Cydwybod*, ac er *cariad* ar DDUW a'th Enaid, ac er *diolchgar Gofhâad* o aneirif *Drugareddau* DUW a'i ryfeddodau i feibion *Dynion*, ac yn enwedig o ADGYFODIAD yr ARGLWYDD JESU,—mewn *Gobaith* cyſſurus o Adgyfodiad *llawen* i titheu y Dydd a ddaw, trwy ddirfawr nerth a *rhinwedd* ei Adgyfodiad EF.—Ac os chwennychi Sicrhâu dy *Hawl* yn yr unrhyw, rhaid iti adgyfodi yn awr o angeu *Pechod* i newydd-deb Buchedd :—Os diſgwyli gael dy dderbyn ar fyrder i Deyrnas *Nef*, a gwarrio Sabbath TRAGYWYDDOL gyda DUW ; rhaid iti yn awr fod yn gynnyſcaeddol o *rinweddau nefol*, a chofio cadw yn *Sanctaidd* bob dydd *Sabbath* yn y byd a'r bywyd *ymma*.

Oni cheiſi waſanaethu'r ARGLWYDD Goruchaf mo'r ddygn ac mo'r hollawl ar y *Sûl*, ac yr wyt yn trin y *Byd* (ac yn gofyn *cael* dy waſanaethu gan dy weiſion) ar ddyddiau'r *Wythnos* ;—Onid wyt yn *cynnyddu* mewn duwioldeb, ac yn priſio yn *well* Dyn o hyd tan *foddion Grâs* ;—Os wyt yn ddifatter am iechydwriaeth dy *Gyd*-Criſt'nogion, ac na waeth gennyt' *beth* a ddelo o Eneidiau Pobl *eraill* ;—onid wyt yn dwyn ZEL tuag at DDUW a'i *Ddydd* a'i *Air* a'i Deml a'i *Addoliant* ;—onid wyt yn *caſſâu* drygioni, ac yn clywed PECHOD yn *faich* trwm ar dy Yſpryd ; ac onid yw yn *flin* gennit' weled neu glywed *eraill* yn amharchu DUW a'i ddeddfau, ac yn halogi e'i *Sabbath* Ef mewn unrhyw fodd ;—onid wyt yn ymladd yn *wrol* dan faner CRIST yn erbyn Teyrnas *Satan*, ſef yn erbyn *Pechod* a drygioni ; ac yn *ymbyfrydu* mewn Crefydd a duwioldeb ; gan gyfrif *pob* peth yn *wagedd o wagedd* mewn cyffelybiaeth i'r *un peth angenrheidiol* ;—gwybŷdd wrth yr *Arwyddion* ymma, nad wyt ti etto yn *gwir*-garu na DUW na *Dyn* ; nid wyt ti etto yn *Greadur newydd* ; ie nid wyt fyth ond aefod diffrwyth

diffrwyth anſuddiol o Gorph *Eglwys* CRIST ; a rhaid iti ſod yn fath *arall* o Griſtion, cyn y byddi yn *Etifedd Teyrnas Nef.*— Joan 3. 3. Jago 2. 10. Matt. 5. 20.

Gwae ni o'r *Eglwys ſeſydledig*, ſod gennym yn gyffredinol, ynghyd a'r *Greſydd oreu*, y Bucheddau *gwaethaf* ; a'n bod yn hynod am y Pechod erchyll o *gam*-dreulio Dydd yr ARGLWYDD, (ie i *gyd*, oddigerth *ychydig* oriau,) mewn gwagedd a ffolineb, ac ymddiddanion *bydol*, a difrâwch, ac amryw arferion *gwaharddedig*.

Ond *gochel* di y cyfryw *Siamplau* annuwiol. *Na ddilyn liaws i wneuthur Drwg*, Ex. 23. 2 ; *Ac na fydd* gyfrannog *o Bechodau rhai* eraill : *Cadw dy hun yn bur*, 1 Tim. 1. 22.—Yſtyria mai *nid* er ei fwyn ei *hun*, ond er dy fwyn *di* ac er mawr gariad ar dy *Enaid*, y Sancteiddiodd DUW y *Sabbath*.— Eſe a'i BENDITHIODD hefyd, ac a'i hamcanodd yn Ddiwrnod y *Fendith* i ti. Gwilia ditheu rhag troi y Fendith honno yn *Felldith*, a rhag cael dy gippio ymmaith o'r achos yn *amharod* ger bron Gorſedd faingc DUW !— O cais bellach gyſſegru *un* Sabbath i DDUW, ar ôl *cam*-dreulio cynniſer, yn ôl ffordd a ffaſhiwn y *Byd* — Ac os gweli *ryw* un o'th Gymmydogion yn rhagori arnat' mewn dim a wyddoſt yn dy *Gydwybod* e'i fod yn *dda* ac yn ganmoladwy ac yn ôl rheol *Gair* DUW,— (megis Sancteiddio y dydd *Sabbath*, a chadw'r *Eglwys* a'r *Cymmun* yn ofalus,—*hoffi* darllenniad y *Bibl* a phob llyfrau da, ac ymddiddanion *creſyddol*,— cynnal Duwioldeb *teuluaidd*, a dywedyd *Grâs-bwyd* yn ddiball,—canu *mawl* i DDUW; a dwyn *Zêl* iddo Efa'i Greſydd,—*Ymattal* oddiwrth ddid a chwerwder a meddwdod a maſwedd ac araith ddrwg ac Afreolaeth a ffolineb, a SCHISM ;—a *cheryddu'r* pechodau cyffredinol a ſy'n fath *amharch* noeth i GRIST a'i Eglwys, &c,) gâd i hynny ennyn cywilydd ac *Eiddigedd duwiol* ynot ; ac yn lle *goganu* a beio ar ddim ſiampl *dda*, yn ôl *drwg*-arfer y *Byd* annuwiol ymma, cais DI *ragori* ar *bob* dyn yn yr hyn oll a fyddo wir *ddaionus*,— nid *dim pellach* nac mewn dim *arall*. —Na *chaſhâ ddim oll* ond *Pechod* ; ac na *ymhoffa* mewn dim ond *Grâs* DUW a *daioni* ; ac na *farnu* neb yn dôlt ond dydi dy *Hun* : Na *rwyſtra* neb rhag bod yn wir *dduwiol*, Matt. 18. 6 ; (ac na *chymmer* dy rwyſtro gan ofn ag anair a hudoliaeth y *Byd* annuwiol ymma, Marc 8. 38;) eithr annog a chynnorthwya bawb i ddyfal *ymbarottoi* beunydd erbyn y TRAGYWYDDOLDEB MAWR a ſydd ar ymddangos.— Cofia mai'r *Gelyn* gwaetha' a fêdd yr *Eglwys*,

yw *aelod di-ras* a di weddi, neu ddyn *anfucheddol*; yr hwn trwy ei *fiampl ddrwg* a'i araith annuwiol, ſy'n gwneud ei eithaf i droi pawb o'i amgylch yn *Angrhiſt'nogion.*

Mae lle i feddwl a gobeithio fod y cwrr ymma o GYMRU wedi *gwellhâu* rhywfaint yn ddiweddar, mewn perthynas i amryw *hên arferion* drwg;—ond er hynny y mae gormod o Angrhefydd ac o feiau ceryddus yn cadw *meddiant* yn ein Gwlâd, fel *un cryf arfog*, Luc. 11. 21; ſef yn cadw eu *lle* fyth yſywaeth;—megis (i grybwyll rhyw *ychydig* o honynt,) yr ymddygiad *tra hyll* a LLADRONLLYD a ganfyddir yn amſer *Llongdorriad*, ie ar ddydd yr *Arglwydd*,—y *grêd* a'r hyder a roir ar *Swynwyr* a *Dewiniaid* Uffernol, ac ar *Hên goelion* Pabaidd a chelwyddog,— yr *Anterludes* ffiaidd a chwareuir, ie ar *Uchelwyliau* cyſſegredig,—*heblaw* y llid, a'r balchder, a'r malais, a'r anghariad, a'r meddwdod, a'r maſwedd, a'r cybydd-dod, a'r celwydd, a'r araith *ddrwg*,— a'r *eſceuluſdra* cywilyddus o ddarllen *Gair* DUW, ac o Dduwioldeb *teuluaidd*, ac o ddweud *Gras-bwyd*, ac o dalu *diolch* i DDUW yn yr Eglwys ar *ôl* bod yn glâf,—a'r enllib, a'r anghydwybod, a'r *golwg*-waſanaeth, a'r gaſ gyfraith,— a'r *Smyglio*;— a'r arfer ddiffaeth o gymmeryd ENW DUW YN OFER, a'r cyfryw gynneddfau *atcas*, a ſy'n dwyn rhwyſc fyth mewn *cynnifer*, ac yn diddymmu yr ychydig Grefydd a feddant; ie ac yn eu gwneuthur yn Blant i'r *Fall!* 1 Jo. 3. 8.— *Wrth eu* FFRWYTHAU *yr adnabyddwch hwynt*, Mat. 7. 20.

Ond ni byddai boſſibl i'r Bŷd barhâu *fyth* mo'r *ddrwg* ac y gwelir ei fod, dan foddion *Grâs* a goleuni'r *Efengyl*, oni ba'i fod y *Gorphwyſdra* a geir ar y *Sûl*, yn cael e'i *gam*-dreulio, a'i wneud yn achlyſur o ſwyſwy *Pechod* ac annuwioldeb.— Gan hynny taer-ddymunaf ar y Sawl a'u *galwant* eu hunain yn *Griſt'nogion*, brofi a dangos eu *bod* felly, ſef eu bod yn *caru* DUW a'i Grefydd mewn *Yſpryd a Gwirionedd*,—trwy *Gofio y Dydd Sabbath i'w Sancteiddio Ef*, yn y modd canlynol.

I. Trwy *orphwys* neu lwyr ymattal (nid yn unig oddiwrth bob *Pechod*; canys y mae hynny *bod* dydd yn ddyledus arnom; eithr hefyd) oddiwrth bob *Gorchwylion* BYDOL; "*Ar y Dydd hwnnw na wna ddim gwaith*;"—oddiwrth *Siwrneio* i unlle ond i *Eglwys y Plwy'*, (a *Gwae* i'r Boneddigion ac eraill a ddanfono e'u gweiſion ar *negeſeuau* yng nghorph y dydd *Sanctaidd* ymma!) oddiwrth bob maſnach a *bargeinion*, a thalu neu dderbyn *arian*, dan unrhyw eſcus ffôl,—oddiwth wag rodienna, ac *ymweled* a chyfeillion,— oddiwrth ddwyn *beichiau*

o unrhyw

o unrhyw ſath, ar draed nag ar geffyl,— oddiwrth *bob* math o *chwareuon* a choeg-ddigrifwch, (chwaethach chwareu yn y *Fonwent*, ie ac ar *Deml* yr Arglwydd,) a ſydd yn magu *yſgafndra* meddwl ac annuwioldeb,—oddiwrth bob *gwag* Ymddiddanion a phob meddwl a *Siarad* am bethau'r *Byd* drwg ymma, yr hwn ſy'n magu *gelyniaeth* rhyngom a DUW, *Jago* 4. 4,—oddiwrth ormodedd o *Gwſc* ac o *Fwyd* a *diod*,—oddiwrth ſyſyrio ar ddim Llyfrau ond rhai *duwiol*,—ac oddiwrth *bob* dim a wyddoch yn eich *Cydwybod* e'i fod yn Anghyttunol a natur a bwriad y Dydd *Sanctaidd* ymma.

II. Trwy ei *gyſſegru* Ef o ben bwygilydd i DDUW Goruchaf a'i *Ogoniant*, a'i dreulio ymhob dyledſwyddau *yſprydol* a berthynant i *Jechydwriaeth* Dyn; gan *ymdrech* yn egniol am Nawdd a *chariad* DUW ai râd-*râs* Ef yng NGHRIST JESU, ac am *Gymdeithas yr* YSPRYD GLAN, ac am y Byd a'r Bywyd a'r bendithion a beru *byth*; a chyfrifwch *Grefydd* a duwioldeb, *nid* yn *faich* annifir, ond yn uchel-*fraint* a *dedwyddwch*;- trwy gyrchu'n ddyfal ac yn *awyddus* i'r EGLWYS, ynghyd a'ch *Teuluoedd*, (Sef i'r *Gwaſanaeth* a'r *Goſper* yn diball; er gwaetha' pob rhwyſtr a gwrthwyneb, a phob gwâg *eſcuſion* drwg,) fel *brodyr* a chyd *aelodau* cywir o'r *un* Corph yſprydol; a'ch ymddwyn eich hunain yno yn y modd mwya' gwrandawus a *defoſionol*;— trwy ddwys FYFYRIO ar y GAIR a glywſoch, wrth ddychwelyd adref; a'i gladdu'n ddyfn yn eich *Calon*; fel y *lladdo* eich pechodau, ac y dycco ynoch' *ffrwyth* Buchedd dda; ac *nid* cynwys i ſŵn y *Byd* a gwag ymddiddanion halogedig ddwyn yr *Had byw* oddiarnoch'; na gadael eich Duwioldeb megis yn *angof* o'ch ôl yn yr *Eglwys*; megis y gwnâ pob Angrhiſt'nogion di ffrwyth;—trwy dreulio'r rhan *arall* o'r Dydd *Sanctaidd* ymma mewn gweithredoedd o *Gariad* perffaith a *Duwioldeb*; megis, holi ac addyſgu eich *Plant* a'ch Teuluoedd; mewn darllenniad yſtyriol o'r BIBLAU bendigedig a'r *amrywiol* lyfrau duwiol a ſydd mo'r *amſer* yn eich plith; mewn ymddiddanion *graſol* a Myfyrdodau *da*; yn ymweled a'r *cleifion*; yn diwallu'r *Anghenus*; yn diddanu'r *gwan-galon*; yn hyfforddio'r *anneallus*; yn ceryddu'r *afreolus*, &c;—(gan fod o leiaf *gymmaint* eich gofal a'ch awydd am wneuthur *daioni* yn eich Cenedl, ac ennill *Eneidiau* i DDUW; ac ydyw *Satan* a'i weiſion am e'u rhwyſtro a'u llygru, a'u dwyn i *ddiſtryw*) mewn Duwioldeb *teuluaidd*, ac mewn *dirgel* Weddiau ar DDUW;—

gan

gan gynnal *Gobaith* cyſſurus o'i *râs* a'i *fendith* dragywyddol Ef i'ch cyd-ganlyn ddydd a nôs yn *waſtadol*, ac i'ch dwyn yn ddiogel i lawenydd Teyrnas *Néf*, trwy ac er mwyn CRIST JESU, a thrwy ddirgel weithrediad yr YSPRYD GLAN.

Yn y modd *ymma* y cafodd y *Sabbath* ei gadw a'i Sancteiddio gan y *Prif* Griſtnogion a chan y Ffyddloniaid *ymbob* oes!— Ond och! i b'le y ciliodd yr *hén* Dduwioldeb hwnnw! Mo'r erchyll y pallodd *Zél* a gwreſogrwydd *Defoſiwn* o'n plith ni! Mo'r ddiflas ac annifir gennym *ymddiddanion duwiol* a gorchwylion *creſyddol*, er mai hoff-waith a llawenydd yr *Angylion* ydynt!—Er mai ein rhwymedig *ddylêd* a'n huchel *Fraint* ni *Griſt'nogion*, yw bod yn Bobl *Sanctaidd* i DDUW, a gwneud *pob* peth er mawl a gogoniant iddo EF, *bod* dydd, bob *awr* o'n bywyd, 1 *Cor.* 10. 31; Etto *pwy* o honom a wna hynny yn *ffyddlon* gymmaint ac ar y Dydd *Sabbath*?—Mo'r egwan a lleſgaidd yw ein *Ffydd* a'n Crefydd *ni*, ac mo'r *oeraidd* yw ein cariad i GRIST a'i *Ddydd* a'i *Deml* a'i *Sacramentau!* Ac och, mo'r gwilyddus o *hawdd* ydyw i Demptaſiwnau drwg *wyrdroi* ein Serch a'n calonnau a'n cariad *ni* oddiwrth y DUW BYW, ie ar y *Sûl* ei hun, chwaethach ar ddyddiau'r *Wythnos!*—O mo'r erchyll yw gweled Perchen-eneidiau yn *fwy* chwannog i *bechu* ar Ddyddiau *Gwylion*, ie ar Uchel-wyl y NATALIG neu Enedigaeth ein *Prynnwr*, nag amſer *arall!*—Wrth yr hyn y maent yn *trymhâu* pob pechod yn erchyll, gan offrymmu eiddo DUW a'r rhan oreu o'u Dydd-*grâs*, yn aberth i *Ddiawl*,—ac yn treulio *oriau lawer* yn *hyfryd* yn ei waith *ef*, am *un* awr neu ddwy a warriant, o'u lled anfodd, mewn *rhith* Dduwioldeb afleſol.— Mo'r *ddiyſtyr* yw Ynfydion o'u *Heneidiau* gwerthfawr ac o Uchel-bris y *Breintiau Yſprydol* a bwrcaſodd GRIST a'i WAED ac o anrhaethol werthfawrogrwydd e'u *Dydd Grâs*; yr hwn, pan *ddarfyddo* unwaith, (ac och mo'r *fuan* y derfydd!) ni's gellir byth gael un *munud* o hono yn *ôl*; fel y gŵyr y rhai *colledig* drwy chwerw *brawf* echryſlon!

Greſyndod a *chywilydd* mawr ydyw, fod GWYL-MABSANTAU a PHRIODASAU-CYMMORTH a'r cyfryw Demptaſiwnau cryſion i Feddwdod ac annuwioldeb, yn cael e'u cynwys a'u cynnal fyth ar y *Sûl*, dan unrhyw eſcuſion drwg o *ddiſyrrwch* neu ſudr-*elw* annuwiol;—gan eu bod yn magu mwy o *bechod* ac yn gwneud mwy o Niwed i *Eneidiau* Dynion, nag a ddichon y *Byd i gyd* wneuthur *iawn* am dano byth. *Canys pa*

leſhaad

leſhaad i Ddyn, o't ennill yr HOLL FYD (ſef ei *holl* Dryſſorau a'i bleſerau gorwag) *a cholli ei* ENAID *ei Hun? Marc.* 8. 36. Beth a *dâl* Pleſer neu Gyfoeth i Ddyn a fyddo yn gorwedd dan farn a *melldith* DDUW, ac mewn Stât o *Ddamnedigaeth?*—Os cafodd un o Bobl *Iſrael* gynt ei labyddio yn *farw*, yn unig am hel ychydig friwydd ar y *Sabbath, Num.* 15. 32.—37; pa faint *trymmach* coſpedigaeth, pa farnedigaethau *ofnadwy* ſydd yng-hadw'gan DDUW *eiddigus* i'r Sawl a halogant y *Sabbath* yn ein dyddiau *ni* mewn modd a meſur *erchyllach* o laweroedd! Siccr yw mai'r Creadur *annedwyddaf* ar y ſydd o'r tu ymma i *Uffern*, ydyw *Criſtion drwg* anfucheddol!—

Fe a ddaeth yr JESU i *ware'd* ei Bobl oddiwrth e'u *pechodau*, Mat. 1. 21.—Ond cofia na thyccia *ddim* iti gael dy ware'd oddiwrth dy bechodau *oddiallan*, neu beidio a phechu yn yr *amlwg*; oddigerth iti hefyd gael tynnu'r *drwg* o'th GALON, a llâdd *corph Pechod* a ſy'n nythu *yno*.—Y mae *un* Pechod gwirfodd rhyfygus yn ddigon i *ddamnio* Dyn, *Jago.* 2.10; ac y mae *Calon* ddi-ras yn *hoffi* pechod, ie yn pechu'n *waſtadol*, ac mewn *gelyniaeth* a DUW!—Gan hynny nid rhyfedd fod cynnifer yn eu *twyllo* eu hunain a *Rhith*-Grefydd afleſol; ac nid rhyfedd fod y wlâd cyn llawned fyth o *ddrwg arferion* pechadurus.

GWAE i'r Sawl, (yn *Fonheddig* a *Gwreng*;) drwy Eſceuluſdra neu *Siampl ddrwg* pa rai y mae y pethau hyn yn *bôd!* A gwae i FUGEILIAID *mudion*, y rhai nid ydynt yn argyoeddi nag yn *ceryddu* Pechaduriaid mewn modd ffyddlon a *dyledus*; eithr yn gadael iddynt *gyſcu* ymlaen yng nghadwynau *Pechod* ac ar ymmyl *Damnedigaeth*;—y rhai nid ydynt nag yn *porthi* eu Praidd, nag yn eu *gwilied* rhag y *llew rhuadwy*;—y rhai ydynt yn fwy ei chwant am *olud* bydol neu *bleſerau*, nag am ennill *Eneidiau*,—ac nid ydynt ond yn rhy anaml yn *ceiſio* tro Pechaduriaid *o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at DDUW*, Act. 26. 18.

Diweddafa *Gair* DUW, yr hwn a weithia yn fwy nerthol na *dim arall* ar eich Calonnau, drwy ei *Râd* ai Fendith *Ef*.

Deffro di yr hwn wyt yn CYSGU, *a chyfod oddiwrth y* MEIRW; *a* CHRIST *a oleua i ti*, Eph. 5. 14.

Os

Os troi dy droed oddiwrth fy Sabbath, (ſef oddiwrth bob cam-arferiad o hono,) *heb wneuthur dy Ewyllys ar fy nydd Sanctaidd; a galw'r Sabbath yn* HYFRYDWCH, *Sanct yr Arglwydd yn ogoneddus; a'i anrhydeddu Ef,* HEB WNEUTHUR DY FFYRDD DY HUN, NA DYWEDYD DY EIRIAU DY HUN, *yna yr* YMHYFRYDI *yn yr* ARGLWYDD; &c. Eſ. 58. 13, 14.

Cedwch fy Sabbothau, a pherchwch fy Nghyſſegr: Yr ARGLWYDD *ydwyf* FI. Lev. 19. 30.

CYNGHORION Mr. E. W.

A ddarllenno, *yſtyried;*

A yſtyrio, *cofied;*

A gofio, *gwnaed;*

A wnêl *parhaed.*

1752.

DIWEDD.